OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2237 (Cy.199)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *16 Awst 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *29 Awst 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 15(4), 32(2) a 88(2) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Awst 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) 1992

**2.** Yn erthygl 2(1) (cymhwyso adran 32 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981) Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) 1992(**2**) ar ôl "Epizootic haemorrhagic virus disease" mewnosoder "Equine infectious anaemia".

### Diwygio Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996

**3.** Yn Rhan I o Atodlen 1 (Clefydau Penodedig) Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996 (**3**) ar ôl "Epizootic haemorrhagic virus disease" mewnosoder "Equine infectious anaemia".

(**1**) 1981 p.22, fel y'i diwigiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), ac O.S. 2003/1734. Trosglwyddwyd pwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yn rhinwedd O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd pwerau Ysgrifennydd Gwladol yr Alban i'r Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan O.S. 1999/3141 ac yna fe'u trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan O.S. 2002/794. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Cynulliad Cenedlaethol gan O.S. 2004/3044.

(**2**) O.S. 1992/3159, a ddiwigiwyd gan O.S. 2003/130; mae offerynnau diwygio eraill, nad ydynt yn berthnasol.

(**3**) O.S. 1996/2628; Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1645 a 2003/130.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*Jane Hutt*
Y Trefnydd a'r Gweinidog dros Gydraddoldebau a Phlant

16 Awst 2006

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) 1992 (O.S. 1992/3159) drwy ychwanegu "equine infectious anaemia" i'r rhestr clefydau y mae adran 32 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn gymwys iddynt (ac y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru beri i anifeiliaid gael eu cigydda oddi tano).

Mae erthygl 3 yn diwygio Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996 (O.S. 1996/2628) drwy ychwanegu "equine infectious anaemia" i'r rhestr clefydau penodedig y mae'r darpariaethau hysbysu yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwnnw yn gymwys iddynt.